

Hysbysiad Hawlfraint

Dyma atgoffa staff a myfyrwyr y Brifysgol hwn fod hawlfraint yn gymwys ar y darn hwn ac ar y gwaith y mae'n dod ohono. Gwnaed y Copi Digidol hwn yn unol â thelerau Trwydded yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint, sy'n golygu eich bod yn cael:

- Gweld a lawr lwytho copi
- Argraffu copi

Mae'r Copi Digidol hwn ac unrhyw gopi digidol neu argraffedig a roddir ichi neu a wnaed gennych yn ôl telerau'r Drwydded hon i'w ddefnyddio yng nghyd-destun y modiwl hwn neu'r cwrs astudio hwn. Cewch gadw'r copïau hyn ar ddiwedd y cwrs, ond dim ond at eich defnydd eich hun.

Rhaid i bob copi (gan gynnwys copïau electronig) gynnwys yr Hysbysiad Hawlfraint hwn a rhaid iddynt gael eu dinistrio neu eu dileu os bydd y Brifysgol yn gofyn ichi wneud hynny.

Ac eithrio'r hyn sy'n dderbyniol yn ôl darpariaethau cyfraith hawlfraint, ni cheir copïo, cadw na dosbarthu (gan gynnwys dosbarthu drwy e-bost) heb ganiatâd y sawl sy'n dal yr hawlfraint.

Mae gan yr awdur (ymadrodd sy'n cynnwys arlunydd a'r sawl sy'n creu gweithiau gweledol eraill) hawliau moesol ar y gwaith ac ni chaiff staff na myfyrwyr achosi na chaniatáu i'r gwaith gael ei anffurfio, ei lurgunio na'i addasu fel arall, na'i drin mewn unrhyw fodd difriol arall, a fyddai'n gwneud cam ag anrhydedd neu enw da'r awdur.

Teitl y darn: **Y Cyfarwydd a'i Chwedlau**

Enw'r Awdur: **Davies, S.**

Teitl/Awdur/Argraffiad y llyfr (os yw'n berthnasol): **Crefft y Cyfarwydd. Davies, S.**

Enw Crëwr Gwaith Gweledol neu

gydnabyddiaeth arall (os yw'n berthnasol):

Manylion cyfnodolyn -

teitl/Cyrol/Blwyddyn (os yw'n berthnasol):

Cyhoeddwr: **Gwasg Prifysgol Cymru**

Tudalennau a sganiwyd: **1 - 27**

Cwrs Astudio (Enw a rhif y modiwl): **Y Mabinogi CYCS7015C**

Enw'r sawl a awdurdododd

y sganio:

E. L. Hamb

Dyddiad y rhoddwyd awdurdod: 08.08.13

Moodle/Powerpoint

1 Y Cyfarwydd a'i Chwedlau

1.1 Y Cyfarwydd

Yn eglwys gadeiriol St Chad yng Nghaer Lwythgoed ceir llawysgrif anghyflawn o'r Efengylau yn Lladin. Yn ôl y dystiolaeth, prynwyd y llawysgrif yn wreiddiol gan Gelli ab Arthudd, a roes geffyl da amdani, ac fe'i cyflwynodd er mwyn ei enaid i Dduw ar allor Teilo, tua dechrau'r nawfed ganrif (Jenkins ac Owen 1983). Yr hyn sydd yn bwysig ynglŷn â'r llawysgrif hon yw ei bod yn cynnwys *marginalia* mewn Hen Gymraeg, hynny yw, peth o'r Gymraeg gynharaf sydd gennym ar glawr. Mewn breinlen a ychwanegwyd at y testun Lladin ddiwedd y nawfed ganrif, nodir mai'r rhai a wŷr manylion y rhent ar ddarn o dir arbennig yw'r *cimarguiteit* (cyfarwyddiaid). Yn y cyd-destun hwn ystyr y gair, mae'n debyg, yw 'gwŷr hyddysg' neu 'wŷr hyddysg yn y gyfraith' hyd yn oed. Dyma'r enghraifft gynharaf sydd gennym o'r gair a ddaeth i olygu storiwyr erbyn yr Oesoedd Canol. Er nad dyna ei ystyr yn wreiddiol yn ôl pob tebyg, prawf yw tystiolaeth Llyfr St Chad i hynafiaeth y term ac i'r parch a delid i'r rhai 'a oedd yn gwybod'.

Ychydig iawn a wyddom am y storiwr a'i swyddogaeth yng Nghymru yn y Cyfnod Canol. Yn ôl ein ffynonellau, adroddid chwedlau naratif mewn rhyddiaith gan storiwyr proffesiynol – y cyfarwydd/cyfarwyddiaid. Yn Iwerddon ymddengys mai'r un gŵr a gyfansoddai farddoniaeth a chwedlau rhyddiaith – cysylltid crefft y storiwr â chrefft y *fili*, sef y bardd (Mac Cana 1980; Bromwich 1978). Yng Nghymru, fodd bynnag, ni cheir tystiolaeth uniongyrchol ynglŷn â pherthynas y bardd a'r cyfarwydd. Ceir dau gyfeiriad yn *Pedeir Keinc y Mabinogi* (11eg–12fed ganrif), lle disgrifir Gwydion a'i gyfeillion yn ymweld â llysoedd 'yn rhith beirdd':

... ac yn rith beird y doethant ymywn. Llawen uuant wrthunt. Ar neillaw Pryderi y gossodet Guydyon y nos honno. 'Ie,' heb y Pryderi, 'da yw genhym ni cahel kyuarwydyt gan rei o'r gwreinc racco.' 'Moes

yw genhym ni, Arglwyd,' heb y Guydyon, 'y nos y delher at wr mawr, dywedut o'r penkerd. Mi a dywedaf gyuarwydd yn llawen.' Ynteu Wydyon goreu kyuarwyd yn y byt oed. A'r nos honno, didanu y llys a wnaeth ar ymdidaneu digrif a chyuarwydyt, yny oed hoff gan paub o'r llys, ac yn didan gan Pryderi ymdidan ac ef. (PKM, t.69)

'E porthawr,' heb ef, 'dos ymywn, a dywet uot yma beird o Uorgannwc.' Y porthawr a aeth. 'Graessaw Duw wrthunt. Gellwng y mywn wy,' heb hi. Diruawr leuenyd a uu yn eu herbyn. Yr yneud a gyweirwyd ac y wwyta yd aethpwy. Guedy daruot y bwyta, ymdidan a wnaeth hi a Guydyon am chwedleu a chyuarwydyt. Ynteu Wydyon kyuarwyd da oed. (PKM, tt.81-2)

Wrth ddehongli'r ddau ddarn gellir gwneud rhai awgrymiadau ynglŷn â swyddogaeth ac arwyddocâd y bardd/cyfarwydd yng Nghymru'r Oesoedd Canol. Yr oedd yn dderbyniol iddo deithio o lys i lys, o'r gogledd i'r de; derbynai groeso mawr ac fe'i rhoddid i eistedd ger arglwydd y llys; teithiai'r pencerdd yng nghwmni nifer o feirdd ieueinc, a'u gwaith hwy oedd adrodd cyfarwyddyd; yn olaf, swyddogaeth y cyfarwydd oedd diddanu. Eto i gyd, rhaid gochel rhag rhoi gormod o sylw i'r ddau ddisgrifiad uchod gan mai twyll Gwydion yw'r thema yn y ddau achos. Gellid dadlau, gyda Mac Cana (1980: 138), mai term achlysurol yw cyfarwydd sydd yn dynodi swyddogaeth yn anad dim, yn hytrach na dosbarth cymdeithasol neu broffesiynol. Rhaid pwysleisio mai prin yw'r dystiolaeth ynglŷn â pherthynas y bardd a'r cyfarwydd. Nid yw'r testunau cyfraith, er enghraifft, yn rhestru'r cyfarwydd ymhlith y pedwar swyddog ar hugain yn llys y brenin, er bod y pencerdd yn dal swydd bwysig.¹ Hefyd, efallai mai adlewyrchu syniadau awdur y *Pedeir Keinc* ynglŷn ag arferion y gorffennol a wna'r darnau uchod, ac nid ydynt felly o angenrheidrwydd yn hanesyddol gywir (Roberts 1984: 212).

Rhaid cofio, fodd bynnag, bod adrodd straeon wedi bod yn un o swyddogaethau'r bardd yn Ewrop ar hyd y canrifoedd. Y confensiwn yn y rhan fwyaf o wledydd Indo-Ewropeaidd oedd adrodd stori ar fydr. Naratifau mydryddol yw'r *Iliad* a'r *Odyssey*, ac *Aeneid* Fyrsil; barddoniaeth gyflythreniadol yw'r rhan fwyaf o lën naratif Eingl-Sacsonaidd – yr epig *Beowulf*, *Waldhere*, cerddi arwrol *Finn*, *Deor* a *Widsith*. Ar y llaw arall, mae rhyddiaith Saesneg o'r un cyfnod yn tueddu i fod yn grefyddol, hanesyddol neu'n athronyddol ei naws. Yn Ffrainc, yr oedd pob llenyddiaeth ddiddanol ar fydr hyd at ddiwedd y ddeuddegfed ganrif – cerddi epig fel *La Chanson de Roland* a rhamantau Ffrangeg Chrétien de Troyes. Mae'n ymddangos, felly, bod llenyddiaeth naratif y Celtiaid yn dilyn patrwm hollol wahanol, oherwydd yn Iwerddon ac yng

Nghymru (a Sgandinafia hefyd) rhyddiaith yw cyfrwng y testunau naratif cynharaf sydd gennym ar glawr. Yn wir, ni cheir unrhyw naratifau mydryddol mewn Cymraeg Canol. Gellid awgrymu, fodd bynnag, bod traddodiad y canu ymddiddan neu ymson yn awgrymu rhyw fath o gysylltiad rhwng beirdd a chwedleu. Dadleuodd Ifor Williams (1934), ac eraill, mai gweddillion chwedlau cymysg o ryddiaith a mydr yw llawer o'r cerddi englynol hyn, ond bod y rhyddiaith wedi diflannu. Cytunir bellach nad yw'r darlun mor syml – mae rhai o'r cerddi'n hunangynhaliol ac yn gofyn am ychydig iawn o eglurhad; mae angen mwy o gefndir naratif i ddeall y lleill, ond nid oes rhaid derbyn mai rhyddiaith sefydlog oedd hwnnw o angenrheidrwydd (Rowland 1990: 260–75). Eto, ni ddylid eu hanwybyddu mewn unrhyw drafodaeth ar chwedleu yn yr Oesoedd Canol.

Y mae'r berthynas rhwng y bardd, y cyfarwydd a'r cyfarwyddyd felly yn un gymhleth ac ni ellir ei darlunio'n ddigonol oherwydd diffyg tystiolaeth. Mae cysylltiad rhwng tarddiad y gair cyfarwyddyd a 'gwybodaeth, arweiniad, canfyddiad'; y cyfarwydd, felly, oedd 'yr un a wyddai' (Mac Cana 1980: 139). Yn ôl cofnod Llyfr St Chad, fel y gwelwyd eisoes, yr oedd y cyfarwyddiaid yn gwybod am faterion cyfreithiol. Eithr awgryma tystiolaeth ddiweddarach eu bod yn berchen ar wybodaeth helaethach o lawer ac mai hwy oedd ceidwaid y cyfarwyddyd, sef y ddysg neu'r wybodaeth draddodiadol:

... a complex corpus of traditional lore necessary for society to function, and as such would have included history, genealogies and origin narratives, topography, boundaries and geography, religious myths, tribal and family lore, antiquities and legends, social and legal procedures, and medicine, all of which would have been presented in a variety of forms ranging from panegyric verse to gnomic poetry, catalogues in rhyme, and narratives both verse and prose, all serving as 'cultural orientation'. (Roberts 1988a: 62)²

Ceir olion o gynnwys y cyfarwyddyd hwn mewn testunau Cymraeg megis *Trioedd Ynys Prydein* ac *Englynion y Beddau*, ac mewn gweithiau Lladin megis *De Excidio Britanniae* Gildas, yr *Historia Brittonum*, gweithiau Sieffre o Fynwy a Gerallt Gymro, a bucheddau'r saint (Roberts 1988a: 67). Mewn unrhyw gymdeithas anllthrennog tueddir i drosglwyddo gwybodaeth draddodiadol ar lafar, dan reolaeth dosbarthiadau dysgedig. Yng Nghymru, fel yn Iwerddon, ymddengys mai'r bardd a oedd yn gyfrifol am ddiogelu a throsglwyddo cyfran helaeth o'r cyfarwyddyd. Yn ôl Llyfr Coch Hergest (c.1400):

Tri pheth a beir y gerdawr vot yn amyl:
kyfarwydyt ystoryaeu, a bardoniaeth, a hengerd.
(Williams a Jones 1934: 18)

Disgwylid iddo wybod am 'ystoryaeu', sef traddodiadau hanesyddol y genedl i bob tebyg (Roberts 1974: 13), heblaw am farddoniaeth a cherddi arwrol. Mewn triawd gwirebol o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, sonnir am brif grefftau'r pencerdd:

Teir vnbengerd yw:
prydu,
a chanu telyn,
a chywarwydyt.
(Lloyd ac Owen 1986: 212)

Yn y *Pum Llyfr Kerddwriaeth* (16eg ganrif) adlewyrchir eto ehangder ei wybodaeth:

Tri pheth a berthyn ar wr wrth gerdd davawd: kerdd a chof, a chyfarwyddyd.
Tair kaink yssydd ar gerdd davawd: kywyddav, ynglynion, ac owdlav.
Tri chof yssyd: iachav, arfav, a Ranndiroedd.
Tri chyfarwyddyd yssydd: hengerdd, ystoriav, a [barddoniaeth].
(Williams a Jones 1934: 134)

Ceir cyfeiriad arall at y Tri Chof mewn traethawd Saesneg a gopiwyd gan John Jones Gellilyfdd rywbryd yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg – fe'u hesbonnir fel 'gwybodaeth am hanes, am iaith, ac am achyddiaeth Cymru' (Bromwich 1974: 52).

Ymddengys, felly, bod cysylltiad annatod rhwng y beirdd a chyfarwyddyd. Yn wreiddiol trosglwyddwyd rhan o'r cyfarwyddyd ar ffurf naratif lafar, gan gyflawni swyddogaeth gymdeithasol amgen na diddanu (Roberts 1984: 212). Ond yn raddol daethpwyd i ystyried y deunydd fel adloniant yn hytrach na gwybodaeth draddodiadol (Edel 1983). Adlewyrchir hyn yn hanes semantegol y geiriau 'cyfarwyddyd' a 'cyfarwydd' sy'n datblygu i olygu 'stori' a 'storiwr' mewn Cymraeg Canol (Mac Cana 1980: 139). Efallai'n wir mai swyddogaeth y bardd oedd adrodd rhai o'r chwedlau naratif hyn, eithr ni wyddys i sicrwydd. Y gobaith yw y bydd dadansoddiad o arddull y chwedlau'n taflu rhyw oleuni ar y problem.

1.2 Y Chwedlau

Beth tybed fyddai cynnwys chwedlau'r cyfarwydd? Mae'n amlwg

nad oes gennym dystiolaeth lafar o'r Oesoedd Canol, a rhaid felly ddibynnu ar dystiolaeth eilradd o'r cyfnod. Un ffynhonnell sydd yn datgelu cryn wybodaeth yw *Trioedd Ynys Prydein*, sef casgliad o gymeriadau a digwyddiadau wedi eu dosbarthu fesul tri, er enghraifft Tri Chynweissyat Enys Prydein, Tri Gwrdueichyat Enys Prydein, Teir Drut Heirua Ynys Brydein (Bromwich 1978). Mynegai i'r beirdd oedd hwn, yn ôl pob tebyg, i'w cynorthwyo i gofio elfennau yn y traddodiad naratif fel y gallent gyfeirio at arwyr ac anturiaethau o'r gorffennol wrth foli eu noddwyr. Bellach, mynegai yw'r *Trioedd* i gorpws eang o chwedlau coll. Ceid arfer tebyg yn Iwerddon, fel y pwysleisia Bromwich:

the classification of the stories according to their subject matter in saga lists bears a certain resemblance to the Welsh classification by means of triads. In both there is apparent the same basic idea of grouping according to theme, rather than according to period and cycle . . . and there is evidence which suggests that Irish poets were prepared to recite these catalogues spontaneously when required to enumerate their repertoire for the benefit of a patron. (1978: lxxii)

Yn Llyfr Leinster, er enghraifft, dosberthir y chwedlau'n ddeuddeg categori:

<i>togla</i> (distrywiau)	<i>uatha</i> (ogofau)
<i>tāna</i> (cyrchoedd dwyn gwartheg)	<i>imrama</i> (mordeithiau)
<i>tochmarca</i> (carwriaethau)	<i>aideda</i> (trychinebau)
<i>catha</i> (brwydrau)	<i>fessa</i> (gwleddoedd)
<i>forbaisi</i> (gwarchaeadau)	<i>aitheid</i> (ffoedigaethau cariadon)
<i>echtrada</i> (anturiaethau)	<i>airgne</i> (anrheithiau)
	(J.E.C. Williams 1958: 54) ³

a disgwylid i'r *ollam* (y prifardd) wybod tri chant a hanner o storïau. Nid oes dystiolaeth debyg yng Nghymru ond eto gellid cytuno â Bromwich pan ddywed:

it is safe to deduce . . . that originally an equally extensive familiarity with the canonical corpus of national tradition was demanded as a part of the bardic training. (1978: lxxiii)

Dadleua ymhellach fod Gogynfeirdd y ddeuddegfed ganrif yn cyfeirio at yr hen chwedlau fel petai ganddynt wybodaeth ddilys ohonynt. Fodd bynnag, gyda threigl amser gwelir bod y beirdd yn araf ymbellhau o'r traddodiadau ac yn eu defnyddio yn eu cerddi er mwyn effaith yn unig – datblygodd y trioedd yn 'quarry for reference' ys dywed Bromwich (1978: lxxvi).

I wybod mwy am natur chwedlau'r cyfarwydd rhaid troi at y corpws o chwedlau brodorol sydd bellach wedi eu diogelu mewn testunau ysgrifenedig canoloesol. Fel y dywed Kellogg mewn erthygl yn ddiweddar, 'the earliest vernacular texts represent a collaboration between the two cultures, oral and literate' (1991: 137). Er mai cynnyrch diwylliant llythrennog yw'r chwedlau hyn, eto i gyd mae eu deunydd yn draddodiadol ac yn tynnu oddi ar ddiwylliant llafar y cyfnod. Fe'u seilir ar ddeunydd mytholegol, hanesyddol a chwedlonol; gellir canfod ynddynt themâu a motifau rhyngwladol (Jackson 1961; Welsh 1988). Ond, wedi dweud hynny, rhaid bod yn ofalus wrth ddadansoddi'r chwedlau, yn enwedig wrth eu defnyddio i daflu goleuni ar natur chwedleua yng Nghymru'r Oesoedd Canol. Mae'r berthynas rhwng y testunau ysgrifenedig a fersiynau llafar o'r un chwedlau'n aneglur. Mae eu ffynonellau bellach ar goll ac amhosibl gwybod, felly, i ba raddau y mae'r awduron wedi addasu, aildrefnu neu gyfuno'r deunydd llafar oedd ger eu bron (Roberts 1984: 215). Ni wyddom a oedd yr awduron eu hunain yn gyfarwyddiaid a benderfynodd ysgrifennu eu chwedlau llafar traddodiadol ar femrwn, neu ai cyfansoddiadau ysgrifenedig oedd y chwedlau o'r cychwyn cyntaf a'r awduron yn benthyg elfennau o sawl ffynhonnell gan gynnwys ffynonellau llafar. Y testun ysgrifenedig yn unig sydd yn aros heddiw, ac amhosibl gwybod faint o newid a fu ar fersiwn llafar wrth iddi symud i gyfrwng llenyddol; fel y sylwa Goody:

Until the advent of recording devices we possessed oral material only in written form; it is therefore difficult if not impossible to know how far the 'utterances', the oral compositions, have been transformed into literary 'texts' in the course of being written down. (1987: 81)

Ar y llaw arall, technoleg weddol newydd oedd ysgrifennu yn yr Oesoedd Canol. Felly, wrth i awduron ysgrifennu chwedlau ar glawr am y tro cyntaf, diau y byddai arddull a thechnegau'r chwedl llafar yn gadael eu hôl arnynt – dyma yw damcaniaeth Tristram wrth drafod llenyddiaeth Iwerddon yn arbennig (1989: 427). Cofier hefyd y byddid yn darllen llawer o weithiau canoloesol yn uchel i gynulleidfa, a hyn oll yn dylanwadu ar arddull ac adeiladwaith llenyddiaeth ysgrifenedig. Dychwelir at y pwynt hwn yn y man. Gorsymleiddio, felly, fyddai ystyried y llafar a'r llenyddol fel dau begwn hollol groes i'w gilydd – mae'r naill yn dylanwadu ar y llall ac yn parhau i wneud hynny hyd heddiw.

I fanylu ar y chwedlau eu hunain, mae un ar ddeg ohonynt i gyd. Diogelwyd pob un yn Llyfr Coch Hergest (c.1400) (G. Charles-Edwards 1980a) a cheir copi cyflawn neu rannol o ddeg ohonynt yn

Llyfr Gwyn Rhydderch (c.1350) (Huws 1991). Ceir darnau o rai chwedlau hefyd mewn llawysgrifau cynharach (sef Peniarth 6, 7, 14 a 16) a diau bod ambell i hanesyn yn hŷn eto.⁴ Adwaenir y chwedlau heddiw fel *Y Mabinogion*. Rhoddwyd y teitl torfol hwn arnynt gan yr Arglwyddes Charlotte Guest wrth iddi eu cyfieithu i'r Saesneg yn y ganrif ddiwethaf (Guest 1849), er mai William Owen-Pughe, mae'n debyg, oedd y cyntaf i ddefnyddio'r term (Sioned Davies 1990: 15–20). Unwaith yn unig yr ymddengys y gair 'mabinogion' yn y chwedlau, a hynny ar gam. Eto, daeth yn enw cyfleus i ddisgrifio'r corff hwn o chwedlau rhyddiaith, er na ddylid meddwl amdanynt fel casgliad unedig o unrhyw fath – maent yn amrywio o safbwynt dyddiad, awdur, ffynonellau, cefndir a chynnwys.

Mae'n debyg mai *Culhwch ac Olwen* yw'r hynaf o chwedlau'r *Mabinogion* – fe'i cyfansoddwyd yn ei ffurf derfynol, yn ôl D. Simon Evans, o gwmpas y flwyddyn 1100 (Bromwich ac Evans 1988: xxvii). Hanfod y chwedl yw'r thema ryngwladol 'Merch y Cawr'. Mae'r arwr yn teithio oddi cartref i geisio Merch y Cawr ond mae'r cawr yn anfon ei rhoi ac yn bygwth lladd yr arwr neu'n ei brofi trwy osod tasgau anodd a pheryglus – ac amhosibl weithiau. Gyda chymorth y ferch, neu gynorthwywyr a chanddynt gyneddfau arbennig, llwydda'r arwr i ennill y ferch a gorchfygu, neu ladd, y cawr (Bromwich ac Evans 1988: xxxiii). Yn y chwedl *Gymraeg* cyfunir y thema â thema'r *Llysfam Genfigennus* – *llysfam Culhwch* sydd yn gosod tynged arno na chaiff briodi neb ond Olwen, ferch Ysbaddaden Bencawr. Patrwm syml, felly, sydd i'r chwedl. Eithr defnyddiwyd y patrwm hwn fel fframwaith i gasglu ynghyd bob math o chwedlau annibynnol, yn ogystal â chyfeiriadau at lu o gymeriadau traddodiadol. Hefyd, cyflwynir Arthur a'i wŷr fel cynorthwywyr yr arwr ifanc a throsglwyddir yr holl sylw iddynt hwy. O safbwynt awduraeth y chwedl, dadleuodd Bromwich ac Evans fod yr awdur yn gyfarwydd iawn â dysg frodorol yr eglwys Gymreig, gan gynnwys *Bucheddau* a *Bonedd y Saint* (1992: lxxvii–lxxxiii). Yn eu tyb hwy, cyfansoddwyd y chwedl yn ne-orllewin Cymru, mewn canolfan fynachaidd fel Tyddewi, Caerfyrddin neu Landeilo Fawr.

Mae dyddiad ac awduraeth *Pedeir Keinc y Mabinogi* wedi bod yn bwnc llosg ers blyneddau lawer. Y gred gyffredinol yw mai gwaith un awdur ydynt.⁵ Dadleuodd Ifor Williams, ar sail iaith ac orgraff yn arbennig, mai tua 1060 y'u cyfansoddwyd, a hynny gan ŵr o Ddyfed (1930: xii–xx). Yn nhyb Loth nid ydynt yn hŷn nac yn ddiweddarach nag ail hanner y ddeuddegfed ganrif (1913: 44), ond gwell gan Morgan Watkin eu gosod yn hanner cyntaf neu ganol y drydedd ganrif ar ddeg (1962: 294). Daeth Saunders Lewis i'r casgliad mai cynnyrch gŵr o Ddyfed ydynt – mynach o Ystrad-fflur efallai – ac awgryma ef ddyddiadau gwahanol i'r pedair

chwedl gan amrywio rhwng 1170 a 1190 (1973: 1–33). Cafwyd dadansoddiad manwl o ddamcaniaethau Saunders Lewis ac Ifor Williams gan T.M. Charles-Edwards ym 1970. Daeth ef i'r casgliad nad yw'r un o'r ddau ysgolhaig yn llwyddo i argyhoeddi, a'i awgrym ef yw mai rywbyrd rhwng 1050 a 1120 y cyfansoddwyd y ceinciau. Yn ddiweddar cafwyd beirniadaeth ar ei ddamcaniaeth yntau gan Sims-Williams (1991). Nid yw'n cynnig ateb i broblem dyddio'r *Pedeir Keinc* ond yn cloi trwy ddyfynnu geiriau Mac Cana – 'the date of the Four Branches is still very much an open question' (1992: 23).

Anodd iawn, felly, yw gosod *Pedeir Keinc y Mabinogi* mewn cydestun hanesyddol neu gymdeithasol. Yn sgil hyn, peryglus yw ceisio dyfalu pwy oedd awdur y gwaith. Eto, awgrymwyd gan sawl ysgolhaig mai'r Esgob Sulien ydoedd, gŵr a ddisgrifiwyd yn *Brut y Tywysogion* fel

y doethaf ar kreuydussaf o esgyb y brytanyeid ar kloduorussaf herwyd dysc y disgyblyon ay blwyueu. (Thomas Jones 1941: 24)

Ar ôl treulio tair blynedd ar ddeg yn Iwerddon dychwelodd Sulien i Gymru a sefydlu ysgol yn Llanbadarn Fawr. Fe'i hetholwyd wedi hynny yn esgob Tyddewi. Nid erys dim o'i waith heddiw, o leiaf dim y gellir bod yn sicr iddo ei gyfansoddi, ond erys peth o waith ei feibion, ac y mae hwnnw'n dyst i sefyllfa dysg yng Ngheredigion cyn dyfodiad y Normaniaid.⁶ Y mab Rhigyfarch oedd yr amlycaf yn y maes hwn – ef a fu'n gyfrifol am gyfansoddi *Vita Davidis* (tua 1093) (D. Simon Evans 1965). Mae dylanwad Gwyddelig yn amlwg ar y fuchedd ac efallai mai Sulien a drosglwyddodd i'w fab y deunydd Gwyddelig a gorfforir yn y gwaith (Mac Cana 1958: 184–5). Os felly, yn ôl Mac Cana, efallai mai Sulien hefyd a drosglwyddodd y *matière d'Irlande* i'w fab, deunydd a welir yn amlwg yn yr ail gainc. Pwysleisia fod gennym yma ddau destun – *Branwen a Vita Davidis* – un yn seciwlar ac yn y Gymraeg, a'r llall yn grefyddol ac yn Lladin, y ddau destun yn cynnwys deunydd Gwyddelig a'r ddau wedi eu cyfansoddi tua'r un adeg. Gwyddys mai Rhigyfarch yw awdur y testun Lladin; mae awdur *Branwen*, ar y llaw arall, yn anhysbys – clerigwr, efallai, a oedd yn hanu o Ddyfed (Ifor Williams 1930: xxii). Dadleua Mac Cana, felly, mai Rhigyfarch, neu ei dad Sulien, neu'r ddau'n gweithio ar y cyd, a gyfansoddodd *Branwen* a'r tair cainc arall yn ogystal. Ond fel y pwysleisiwyd eisoes, nid oes unrhyw sicrwydd ynglŷn â dyddiad y *Pedeir Keinc* ac, felly, rhaid bod yn amheus o ddamcaniaeth Mac Cana.⁷ Yn wir, yn ei fersiwn ddiwygiedig o'r gyfrol *The Mabinogi*, cyfaddefa ef ei hun bod gwallau sylfaenol yn ei fethodoleg (1992: 132–3).

Seiliwyd *Pedeir Keinc y Mabinogi* ar fytholeg y Brythoniaid, er mai adleisiau yn unig o'r fytholeg honno sydd i'w clywed bellach. Cymeriadau mytholegol oedd arwyr y ceinciau yn wreiddiol meddid (Mac Cana 1983; Green 1986 a 1992) – Rhiannon (*Rigantona 'Brenhines ddwyfol'), a'i chysylltiad arbennig â meirch; Teyrnnon (*Tigernonos 'Brenin dwyfol'); a Lleu, sef Lugh y Gwyddelod a Lugus y Cyfandir. Ymddengys fod teulu Dôn yn cyfateb i'r teulu dwyfol hwnnw yn Iwerddon, y Tuatha Dé Danann, a Manawydan fab Llŷr yn cyfateb i dduw y môr, Manannán mac Lir. Ym mhob cainc gwelwn ddynion yn dod i gysylltiad â grymoedd arallfydol, a cheir ymweliad â'r arallfyd ei hun – Annwfn (y mewnfyd) – yn y gainc gyntaf (Sioned Davies 1989: 46–50). Ond wedi dweud hynny, nid chwedlau hud a lledrith yn unig mo'r *Pedeir Keinc*. Fel y pwysleisiodd Brynley Roberts droeon, mae'r chwedlau hyn yn ddyfnach eu harwyddocâd na'r lleill, ac yn dangos ôl athrylith mawr:

In the *Four Branches of the Mabinogi* we are aware of a consistent attitude and a thematic unity. The material which these stories use is the most obviously native and traditional of all the chwedlau, and yet from it the medieval author has produced a work unparalleled in Middle Welsh literature. His moral view of life, tempered by his compassion for human frailty, has taken up the *cyfarwyddyd* which he found and has given it significance beyond that of his own time, not along the way of accepted contemporary literary conventions but along the road of personal conviction shaping a unique narrative form. (1984: 228)

Mae *Cyfranc Lludd a Llefelys* yn wahanol i chwedlau eraill y *Mabinogion*, oherwydd ceir ffurf gryno arni gan un o gyfieithwyr Cymraeg *Brut y Brenhinedd*, sef llyfr hanes Sieffre o Fynwy, *Historia Regum Britanniae* (Roberts 1975). Ychwanegwyd y chwedl at gyfieithiad Llanstephan I (ddechrau'r 13eg ganrif) ac at bob cyfieithiad wedi hynny heblaw Dingestow a Pheniarth 44 (Roberts 1971: xxiv–xxxix). Ymddengys mai o'r cyfieithiad y daeth fersiwn y Llyfr Gwyn a'r Llyfr Coch, ac nid yn uniongyrchol o chwedl lafar. Hyn sydd yn esbonio arddull ddi-fflach y chwedl, mae'n debyg, er rhaid nodi mai o'r traddodiad llafar y cafodd y cyfieithydd ei ddeunydd yn wreiddiol:

... a megys y dyweyt rey o'r kyvarwydeyt. petweryd mab idaw uu Lleuelis. (Roberts 1975: 7)

Tarddu o'r myth hanesyddol cenedlaethol a wna *Cyfranc Lludd a Llefelys*. Seilir y chwedl ar driawd – Tair Gormes a ddaeth i Ynys

Prydain yn ystod teyrnasiad Lludd fab Beli Mawr, sef y Coraniaid, gwaedd a glywid bob Calan Mai, a dyn lledrithiol. Gyda chymorth ei frawd Llefelys, gorchfygir y gormesoedd ac adferir y wlad i'w hen ogoniant. Amrywiad sydd yma, fel y dangosodd Bromwich, ar driawd lled-hanesyddol a soniai am dri ymosodiad ar Brydain: y Coraniaid, y Gwyddyl Ffichti a'r Saeson (1978: 84-7 a 1974: 150-2).

Perthyn i'r un cefndir lled-hanesyddol a wna *Breuddwyd Maxen* sydd i'w dyddio i'r ddeuddegfed neu'r drydedd ganrif ar ddeg (Ifor Williams 1928). Hanes yr ymherodr Rhufeinig Macsen yn cyfarfod â merch mewn breuddwyd a geir yma, ac yna hanes gwireddu'r freuddwyd honno. Wedi iddo briodi'r ferch, sef Elen Luyddog o Gaer Saint yn Arfon, ceir casgliad o chwedlau onomastig a thraddodiadau, a hanes sefydlu teyrnas y Brythoniaid yn Llydaw. Ffigur hanesyddol oedd Macsen i'w olrhain i'r ymherodr Magnus Maximus (gŵr o Sbaen), a ddychafwyd yn ymherodr ym Mhrydain gan ei luoedd ei hun yn y flwyddyn o.c. 383 (Bromwich 1974: 146). Yn fuan wedyn arweiniodd luoedd arfog Prydain i wrthwynebu Gratian a oedd yn cystadlu ag ef am ymerodraeth Rhufain. Ceir yr hanes gan Gildas, ac fe ymddengys eto yn yr *Historia Brittonum*. Mae'r ddwy ffynhonnell hyn yn pwysleisio sut y bu i Macsen amddifadu Prydain o'i gŵr arfog a gadael Prydain ar drugaredd gelynion estron – gormesoedd. Yn union fel y coffeir y Tair Gormes yn nhestun *Trioedd Ynys Prydein*, felly hefyd ceir y 'Tri Chyfor a aeth o'r Ynys hon, ac ni ddaeth drachefn yr un onadunt' (Bromwich 1978: 75). Fel y dywed Bromwich:

... y mae gwrthgyferbyniad sylfaenol yn nefnydd y ddwy chwedl *Breuddwyd Maxen* a *Lludd a Llefelys*, ond y mae'r gwrthgyferbyniad hwn wedi ei gadw mewn ffurf fwy cyntefig yn *Trioedd Ynys Prydein* nag yn y chwedlau hyn, fel y maent yn eu ffurfiau terfynol ac ysgrifenedig. Ond rhyw frithatgof, efallai, am gysylltiad gwreiddiol eu defnydd yw fod chwedl *Lludd a Llefelys* yn dilyn yn syth ar ôl *Breuddwyd Maxen* yn nhestun y Llyfr Gwyn a'r Llyfr Coch. (1974: 152)

Ni wyddys ddim am awdur y chwedl hon. Gwir fod yma deimlad cryf o frogarwch at ardal Eryri, Caer Saint ac afon Menai (Bromwich 1974: 150), a diau mai o'r ardal honno y tarddodd deunydd gwreiddiol y chwedl. Eithr amhosibl dweud unrhyw beth pendant am awdur y chwedl yn ei ffurf derfynol.

Mae'n sicr fod y Tair Rhamant Gymraeg wedi dod o dan ddylanwad Ffrengig. Dylid pwysleisio o'r dechrau mai teitl yw hwn a roddwyd arnynt gan ysgolheigion diweddar ac na ddylid meddwl amdanynt yn gyfanwaith fel y *Pedeir Keinc* (Roberts 1988b). Nid

ydnyt yn ymddangos fel un grŵp yn y llawysgrifau ac nid oes unrhyw dystiolaeth mai un awdur sydd iddynt. Fe'u dosbarthwyd gyda'i gilydd oherwydd bod iddynt nodweddion cyffredin ac oherwydd eu bod yn cyfateb i dair cerdd a gyfansoddwyd gan y bardd Ffrangeg Chrétien de Troyes: *Yvain*, *Erec et Enide*, *Perceval*. Bu llawer o drafodaeth ynglŷn â'r berthynas rhwng y rhamantau Ffrangeg a'r rhai Cymraeg (Goetinck 1975: 2). Yn nhyb rhai, cerddi Chrétien yw ffynhonnell y chwedlau Cymraeg; yn nhyb eraill y chwedlau Cymraeg yw cysail y tair rhamant Ffrangeg. Yn wir, oherwydd y sylw a roddwyd i'r ddadl lenyddol hon, hyd at yn gymharol ddiweddar ychydig o ysgolheigion a aeth ati i astudio'r rhamantau Cymraeg ar eu telerau eu hunain. Fe'u cymharwyd yn gyson â'r rhamantau cyfandirol ac fe'u gwelwyd yn ddiffygiol. Fel y pwysleisiodd sawl ysgolhaig yn ddiweddar, rhaid cofio bod Chrétien a'r awduron Cymraeg yn cyfansoddi ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol, gyda chefnidir a chonfensiynau gwahanol:

The Welsh romances have been judged by standards which should not be applied to them and accordingly they have been found wanting. It is impossible to measure the achievement of the Welsh author [*sic*] by applying the same yardstick to his work and to that of Chrétien. He wrote for a society which was utterly different from Chrétien's milieu and whose literary traditions were not those of twelfth-century France, but these differences are not proofs of inferiority as has sometimes been implied . . . The author of the Welsh romances was a master of the native prose tradition, whereas Chrétien used the medium of verse. (Goetinck 1975: 2-3)

Anodd gwybod beth yn union oedd cysail y rhamantau hyn. Yn nhyb R.M. Jones (1973: ii) datblygodd y Tair Rhamant mewn awyrgylch ddwyieithog yn ne-ddwyrain Cymru yn y cyfnod wedi'r Goresgyniad Normanaidd. Gellir felly esbonio'r elfennau estron yn y chwedlau fel canlyniad i'r gyfathrach ddiwylliannol a fodolai yn y rhan honno o'r wlad. Ategodd Bullock-Davies y ddadl trwy ddangos y cysylltiadau agos a oedd rhwng y Cymry a'r Normaniaid ym Morgannwg a'r gororau yn y ddeuddegfed ganrif (1966). Pwysleisiodd yn arbennig bwysigrwydd y cyfieithydd proffesiynol yn y gymdeithas ddwyieithog hon. O ganlyniad i'r Goresgyniad, tyfodd yr angen am gyfieithwyr (*latimarii*) a theg tybio y byddai'r rhain nid yn unig yn cyfieithu deunydd swyddogol ond y byddent hefyd yn fodd i drosglwyddo deunydd llenyddol o'r naill ddiwylliant i'r llall. Mae hon yn ddamcaniaeth ddigon derbyniol a synhwyrol. Eithr, fel y pwysleisiodd Brynley Roberts, diau bod perthynas y chwedlau â'i gilydd yn gymhleth a bod perthynas pob

rhamant Gymraeg â'r gerdd Ffrangeg gyfatebol yn wahanol (1980: xxviii).

Mae'n anodd dyddio'r Tair Rhamant i unrhyw sicrwydd – rywbyrd yn y ddeuddegfed ganrif neu'r drydedd ganrif ar ddeg, mae'n debyg. Fel y dywedodd Thomson wrth drafod *Owein*:

The date of composition of this text, like that of so much medieval literature, is, strictly speaking, irrecoverable, for the author is unknown, and this is not the kind of story to contain contemporary references, or, at least, not such as we should now be likely to recognise. (1968: xvi–xvii)

Yn ei dyb ef, nid afresymol yw olrhain y testun presennol o'r rhamant hon i ddiwedd y ddeuddegfed ganrif (1991: 159–60). Gellir mynd yn ôl ymhellach efallai – mae hyn yn dibynnu ar berthynas y chwedl Gymraeg ag *Yvain* a gyfansoddwyd tua 1177. Tebyg yw damcaniaeth Middleton ynglŷn â dyddiad *Gereint*:

The ancestor of these manuscripts was probably written in the thirteenth century, but it is difficult to be more precise. The scribes of the extant manuscripts have occasionally preserved archaic spellings characteristic of the Black Book of Carmarthen, which was at one time thought to be c.1200. However, now that the Black Book has been redated to c.1250 and after, the archaic forms need no longer imply a date at the turn of the century. The added difficulty of knowing how long such orthography might have survived in the practice of individual scribes means that even a date as late as 1300 could not be definitely excluded, though one nearer the middle of the century is more likely. (Middleton 1991: 147)

Dyfynnwyd y darn uchod yn llawn er mwyn tynnu sylw at yr holl anawsterau a all godi wrth geisio dyddio llawysgrif. Cyfansoddwyd y fersiwn Ffrangeg o *Gereint* rywbyrd rhwng 1170 a 1185. Mae cryn debygrwydd rhwng y ddwy fersiwn (Middleton 1991: 147); yn wir, honna Middleton fod *Gereint* yn deillio o ffynhonnell ysgrifenedig, gan ychwanegu: 'Chrétien's poem would have served the Welsh author well enough as a source for his narrative, whilst Welsh tradition and the formulaic technique could have supplied most of the rest' (Middleton 1976: 27).

'Rywbyrd yn ystod y ddeuddegfed ganrif' yw awgrym Goetinck ynglŷn â dyddiad *Peredur* (1976: xxiii). Credir yn gyffredinol mai tua 1181 y cyfansoddwyd *Perceval*. Mae hanes *Peredur*, efallai, yn fwy cymhleth hyd yn oed na'r ddwy ramant arall, oherwydd mae'r testunau canoloesol o'r chwedl yn amrywio fel nad oes sicrwydd pa un yw'r fersiwn 'swyddogol'. Ceir y copi cyflawn cynharaf o'r

chwedl yn Llyfr Gwyn Rhydderch, ond ceir darnau o'r testun hefyd yn llawysgrifau Peniarth 7 a 14, a ysgrifennwyd rhwng c.1275 a 1325 (Lloyd-Morgan 1981: 193). Cyfyd y posibilrwydd, felly, fod darnau o *Peredur* yn hŷn na chopi cyflawn y Llyfr Gwyn. Darn yn unig o'r testun a geir ym Mheniarth 14. Ym Mheniarth 7, ar y llaw arall, er bod yr agoriad ar goll mae'r chwedl yn gorffen yn weddol bendant gyda hanes *Peredur* a'r ymerodres yn teyrnasu am bedair blynedd ar ddeg. Ymddengys, felly, nad yw hanes Caer y Rhyfeddodau yn rhan o'r traddodiad hwn (Lovecy 1991: 172). Yn nhyb Goetinck (1976: xvi), dwy ffurf ar yr un ffynhonnell yw Peniarth 7 a 14, ac mae'r un peth yn wir am y Llyfr Coch a'r Llyfr Gwyn. Mae'r ddwy ffynhonnell hyn, felly, yn cynrychioli dwy gainc o'r un traddodiad.

Gellir gweld, felly, fod problemau mawr wrth geisio dyddio'r Tair Rhamant. Mae hanes llawysgrifol pob un yn wahanol, a rhaid trin a thrafod pob un yn annibynnol. Yr unig nodwedd sydd yn rhoi undod iddynt yw eu themâu cyffredin a'r awyrgylch arbennig a geir ynddynt – dyma'r unig beth sydd yn cyfiawnhau'r label 'Y Tair Rhamant'. Chwedlau Arthuraidd ydynt, yn adrodd hanes tri o farchogion Arthur. Mae Owain a Geraint ill dau yn ennill gwaig, ond yn ei cholli ac yn gorfod ailsefydlu'r berthynas. Mae Owain yn ymdroi'n ormodol yn nifyrrwch llys Arthur nes anghofio ei wraig; mae Geraint, i'r gwrthwyneb, yn colli parch ei farchogion am ei fod yn ymdroi'n ormodol gyda'i wraig Enid. Ceir pwyslais yma, felly, ar gadw cydbwysedd mewn bywyd, rhwng serch tuag at wraig ar y naill law a llwyddiant milwrol ar y llaw arall (Patricia Williams 1982). Mae *Peredur* yntau'n gorfod dysgu sut i ymddwyn yn weddus, ac olrheinir ei addysg fel marchog o'i fachgendod hyd at aeddfedrwydd. Os edrychir am thema gyffredin i'r Tair Rhamant, gellid dadlau mai

ryhw wedd ar hunan-adnabyddiaeth ydyw wrth i'r marchog sylweddoli posibiliadau'i bersonoliaeth a dysgu cyd-bwysu ei filwriaeth, gogoniant serch ac ymddygiad priodol ei alwedigaeth. 'Trial through adventure', 'discovery of self by prowess', yw rhai o'r crynodebau a gynigiwyd oherwydd cyfryngau i fynegi'r themâu hyn yw'r daith antur, yr ymrwymiad at ferch, y moesau sifalriaidd. (Roberts 1988b: 37)

Yr oedd yr elfennau hyn, i raddau helaeth, yn newydd ac yn ddieithr i lenyddiaeth Gymraeg – chwedlau am farchogion urddol, pwyslais ar gwrteisi a sifalri, gwasanaethu merch, y twnameint. Elfennau'n perthyn i *genre* arbennig oedd y rhain – *genre* y rhamant a oedd yn fflasiynol ar y cyfandir yn y ddeuddegfed a'r drydedd

ganrif ar ddeg – a'r hyn a welir yn y Tair Rhamant Gymraeg yw 'ffrwyth mewnforio *genre* o lenyddiaeth arall' (Roberts 1980: xxviii). Celtaidd yw llawer o'r deunydd, mae'n wir. Arwyr yr hen fyd Brythonaidd oedd Owain, Geraint a Pheredur a chyfeirir atynt mewn barddoniaeth Gymraeg ganoloesol a ffynonellau megis *Trioedd Ynys Prydein* (Bromwich 1974: 162–4). Ceir yn y Tair Rhamant hefyd elfennau o fytholeg a llên gwerin, gan gynnwys thema 'sofraniaeth' (Bromwich 1960; Goetinck 1975). Eithr cymysgwyd y 'defnydd Brythonig' hwn (y *matière de Bretagne*) â syniadau a chonfensiynau llenyddol estron a gyrhaeddodd Gymru drwy gyfrwng y Normaniaid yn y de-ddwyrain (Bromwich 1974: 160). O ganlyniad i'r dylanwadau hyn, cafwyd ymgais i gyfansoddi rhamantau yn y Gymraeg (Roberts 1980: xxviii; 1988b: 39–40). Ond wrth drosglwyddo'r *genre* newydd hon i'r traddodiad brodorol, cafwyd addasu ar gyfer y traddodiad arbennig hwnnw.⁸ Ffuriau mydryddol oedd i'r rhamantau Ffrangeg a defnyddid dulliau rhethregol yr ysgolion – *digressio* ac *amplificatio* – i addurno'r deunydd. Dadansoddid teimladau'r arwr yn aml a rhoddid cyngor neu rybudd i'r gwrandawyr. Ond rhyddiaith oedd cyfrwng y chwedl Gymraeg draddodiadol ac nid oedd dadansoddiadau rhethregol ac addurniadau disgrifiadol yn rhan ohoni. Fel y dywed Brynley Roberts yn ei erthygl werthfawr 'Dosbarthu'r Chwedlau Cymraeg Canol':

Yn hytrach gwnaed ymgais i gymryd hanfod y rhamant a'i mynegi yn nhermau'r traddodiad naratif Cymraeg, ac y mae'r term 'rhamant Gymraeg' gystal â'r un i ddynodi'r canlyniad. Cedwir at y delfryd o stori anturus lle y pwysleisir y llinell storiol, ac yn unol ag arfer yr 'arddull epig' bydd y cymeriadau'n siarad drostynt eu hunain heb odid ddim ymyrraeth gan yr awdur na'r adroddwr. Llwyddir i fodloni anghenion gwrandawyr o bob gradd ac er bod yma estyn ffiniau, yn raddol y gwneir hynny fel na bydd y ffurf lenyddol yn ddieithr i'r gynulleidfa. Ond mewn modd awgrymog anuniongyrchol ceisir cyfleu delfrydau a themâu cwrteisi, sifalri a marchogwriaeth gan osod y stori ym 'myd rhamant'. (1988b: 39)

Felly, mae rheswm da dros ddosbarthu'r tair chwedl *Owein*, *Gereint* a *Peredur* gyda'i gilydd – yn sicr maent yn sefyll ar wahân i chwedlau eraill y *Mabinogion*. Wedi dweud hynny, ni ddylid meddwl amdanynt fel grŵp unedig gyda'i hunaniaeth ei hun, nac ychwaith fel gwaith un awdur.

Breuddwyd Rhonabwy yw'r unig chwedl yn y corpws y tybir nad yw'n rhan o gynhyrsgaeth draddodiadol y cyfarwyddiaid. Mae'n diweddu â pharagraff sydd yn honni na wyddai neb y chwedl heb lyfr:

(A llyma yr achaws na wyr neb y breidwyt, na bard na chyfarwyd, heb lyuyr, o achaws y geniuer lliw a oed ar y me[i]rch, a hynny o amrauel liw odidawc ac ar yr aruev ac eu kyweirdebeu, ac ar y llenneu gwerthuawr a'r mein rinwedawl). (Rhon, t.21)

Bu'r coloffon hwn yn destun sawl damcaniaeth. Y gred gyffredinol bellach yw mai esboniad ydyw pahan nad adroddid y chwedl ar lafar, eithr ei darllen o lyfr (Roberts 1980: xxiv; Lloyd-Morgan 1991: 183). Go brin y byddai'r holl ddisgrifiadau manwl y tu hwnt i gampau cof y cyfarwydd canoloesol (Bollard 1980). Dyma'r chwedl ddiweddaraf o'r holl gorpws, yn ôl pob tebyg, er bod cryn dipyn o amheuaeth unwaith eto ynglŷn â'r union ddyddiad. Yn ôl Melville Richards, cyfansoddwyd y chwedl rywbryd rhwng 1200 a 1225, gan seilio ei ddadl ar y ddamcaniaeth mai hiraeth a fynegir yma am gyfnod aur Powys o dan deyrnasiad Madog ap Maredudd (1948: xxxvii–xli). Diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg yw awgrym Carson (1974: 289–303), tra dadleua Giffin mai rhwng 1293 a 1309 y'i cyfansoddwyd (1958: 33–40). Cytuna T.M. Charles-Edwards (1970: 266) a Hamp (1972: 99) mai yn ystod bywyd Madog neu yn fuan iawn wedyn y gwelodd y gwaith olau dydd, gan seilio eu damcaniaeth ar natur y dychan yn y chwedl. Dadleuodd Slotkin yn ddiweddar yn erbyn y ddamcaniaeth hon mewn erthygl dreiddgar, 'The Fabula, Story, and Text of Breuddwyd Rhonabwy' (1989a: 89–111). Yn ei dyb ef, elfen fechan yn y chwedl yw dychanu'r gymdeithas gyfoes. Prif fwriad yr awdur, yn hytrach, yw dychanu chwedlau eu hunain:

I do not think that the satire is directed so much at the past as at stories about the past, be they Arthurian narratives or *brut*-like narratives . . . And hence the satire . . . is directed chiefly against *cyfarwyddiaid* who take the Arthurian myth and its values seriously . . . *Breuddwyd Rhonabwy* is a carefully critical look, made with serious but good-natured humour, at the way in which the past, through narrative, haunts the present, any present. (1989a: 110–11)

O dderbyn y ddamcaniaeth hon, anodd dyddio'r chwedl gydag unrhyw sicrwydd – o safbwynt pwrpas y dychan, gallai berthyn i'r ddeuddegfed neu i'r drydedd ganrif ar ddeg neu i unrhyw gyfnod. Daw Slotkin i'r casgliad mai peth amser ar ôl marwolaeth Madog ym 1160 fyddai'r cyfnod mwyaf derbyniol (1989a: 111). Mae Lloyd-Morgan hefyd yn tueddu at ddyddiad diweddar (1991: 192–3). Tybia fod *Breuddwyd Rhonabwy* wedi ymddangos ar ôl y Tair Rhamant gan fod yma ddychanu confensiynau llenyddol Arthuraidd. Os derbynnir mai yn hanner cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg y cyfansoddwyd y Tair Rhamant, yna gellir dadlau mai ar

ddiwedd y ganrif honno y cyfansoddwyd *Breuddwyd Rhonabwy*, neu hyd yn oed ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Dylid ychwanegu bod yr ysgolheigion hyn yn weddol gytûn mai gŵr o Bowys oedd awdur y gwaith.

Un broblem yw mai dim ond yn Llyfr Coch Hergest y cadwyd testun *Breuddwyd Rhonabwy* – ni cheir darnau o'r chwedl mewn unrhyw lawysgrif ganoloesol arall. Hefyd, fel y sylwodd Lloyd-Morgan, mae safle'r chwedl yn y llawysgrif yn ddiddorol:

in the unique Red Book copy, this text is grouped with *Chwedleu Seith Doethon Rufein* (a version of the popular tale of the Seven Sages), and a vaticinary text, *Proffwydoliaeth Sibli Doeth*, some fifty-six columns separating it from the nearest tale of the *Mabinogion*, *Owein*. (1991: 183)

Eto i gyd, mae'r math o gangymeriadau a welir yn y testun yn dangos bod yr ysgrifydd yn gweithio o ffynhonnell ysgrifenedig (Lloyd-Morgan 1991: 183–4), a'r chwedl yn un ysgrifenedig erioed. Mae'r awdur yn tynnu oddi ar ddeunydd traddodiadol, wrth gwr, yn arbennig y traddodiadau Arthuraidd, gan gynnwys *Culhwch ac Olwen a Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy a ysgrifennwyd ym 1138. Ond defnyddir y deunydd hwn i greu rhywbeth hollol newydd – chwedl ddychanol, yn llawn amwysedd ac eironi. Trafodwyd yr elfen ddychanol yn fanwl gan Dafydd Glyn Jones (1966 a 1974), ac yn fwy diweddar gan Slotkin (1989a). Dangoswyd bod yma sawl haen i'r dychan – dychenir amgylchiadau cyfoes Powys, y brenin Arthur a'i fyd, y defnydd o freuddwydion mewn chwedlau, a hyd yn oed chwedloniaeth ei hun. Gwneir hyn trwy gyfrwng arddull ac adeiladwaith y chwedl, yn ogystal â'r cynnwys. Oherwydd bod ôl cymaint o gynllunio manwl yma, cytunir mai gwaith ysgrifenedig fu hwn erioed. Fel y dywed Dafydd Glyn Jones:

Byddaf yn meddwl weithiau mai gwell peidio â defnyddio'r gair 'chwedl' am *Breuddwyd Rhonabwy*. Stori lenyddol yw hi, yn patrymu defnyddiau chwedlonol mewn modd cywrain a gogleisiol, ac yn dychanu chwedloniaeth ar yr un pryd. . . . Y mae'n waith awdur sy'n gwybod ei chwedloniaeth, sy'n gwybod beth yw nerth chwedl, a'i hapêl, a'i dylanwad ar feddyliau ei gyd-ddynion; ond nad yw, o'i ran ei hun, yn credu un dim ynddi. (1974: 194–5)

1.3 Y Deunydd Crai

Hyd yn hyn edrychwyd yn fras ar y corpws o chwedlau brodorol a adwaenir heddiw fel *Y Mabinogion*. Dangoswyd yn glir eu bod yn

perthyn i wahanol gyfnodau ac mai amhosibl ar hyn o bryd yw datrys cronoleg y testunau'n fanwl. Gwelwyd bod amrywiaeth eang yn eu cynnwys ac yn y dylanwadau a fu arnynt. Ond, er yr holl amrywiaeth, gellir bod yn weddol sicr eu bod i gyd, hyd yn oed *Breuddwyd Rhonabwy*, yn tynnu oddi ar draddodiadau llafar i ryw raddau – datblygodd y deunydd yn wreiddiol mewn cyd-destun llafar. Yn wir, mae'n siwr fod rhai o'r chwedlau, neu rannau ohonynt, wedi bodoli ar lafar cyn eu cofnodi ar femrwn (heblaw am *Breuddwyd Rhonabwy*, mae'n debyg). Y broblem yw gwybod faint o bwyso a fu ar y traddodiad llafar, neu faint o gyfansoddi o'r newydd a ddigwyddodd wrth i'r deunydd symud o'r naill gyfrwng i'r llall.

Weithiau gall y testun ei hun ddatgelu syniadau'r awdur ynglŷn â'i ddeunydd crai. Awgrymwyd eisoes fod y term cyfarwyddyd wedi datblygu i olygu chwedl yn syml, er iddo olygu 'gwybodaeth draddodiadol' yn wreiddiol. Mae awdur y *Pedeir Keinc* yn cyfeirio deirgwaith at y ffaith ei fod yn tynnu oddi ar ffynonellau traddodiadol:

A hynny a dyweit y kyuarwydyd hwnn eu kyfranc wy. 'Y gwyr a gychwynwys o Iwerdon,' yw hwnnw. (PKM, t.47)

Ac o achaws y carchar hwnnw, y gelwit y kyuarwydyt hwnnw, Mabinogi Mynweir a Mynord. (PKM, t.65)

A herwyd y dyweit y kyuarwydyt, ef a uu arglwyd wedy hynny ar Wyned. (PKM, t.92)

Yr awgrym yma yw ei fod yn defnyddio sawl cyfarwyddyd ac yn eu hasio ynghyd.⁹ Trafodir ystyr 'mabinogi' mewn man arall, eithr ymddengys mai enw ar fath arbennig o gyfarwyddyd oedd hwn yn wreiddiol, sef stori am ieuenctid arwr. Dywed awdur *Cyfranc Lludd a Llefelys* yntau ei fod yn tynnu oddi ar ffynhonnell draddodiadol:

A herwyd y kyuarwydyt, petweryd mab idaw uu Lleuelis. (Lludd, ll.2–3)

Digwydd y term 'chwedl' yn gyson yn y testunau. Term cyffredinol ydoedd, a gwmpasai bob math o gategorïau:

The more common word used for tale is *chwedl* (pl. *chwedlau*) which is related to the Welsh verb *heb*, 'says, speaks.' The word conveys the sense of spoken material and is the generic term for an oral traditional story. Most of the extant Middle Welsh tales use the word to describe themselves in a stereotyped closing sentence, 'And this *chwedl* is called . . .' (Roberts 1984: 213)

Yn y bedwaredd gainc mae Gwydion yn difyrru'r llys ag 'ymdidaneu', sef deialog mewn Cymraeg Diweddar ond math arbennig o chwedl mewn Cymraeg Canol yn ôl pob tebyg.¹⁰ Ar ddechrau *Owein* ceir enghraifft benodol o 'ymdidan' pan edrydd Cynon ei brofiadau wrth farchogion llys Arthur. Mae 'kyfranc' hefyd yn derm a ddefnyddir am fath arbennig o naratif:

A'r chwedyl hwnn a elwir Kyfranc Llud a Lleuelys. (Lludd, ll.171)

Kyfranc gereint hyd yma. (WM, col.402)

Ystyr wreiddiol y gair oedd 'cyfarfyddiad' – *meeting, encounter, combat* (Roberts 1975: 16) – eithr daeth i olygu chwedl yn gyffredinol.

Y term mwyaf arwyddocaol o safbwynt olrhain llinach y chwedlau ysgrifenedig hyn yw 'ystoria', enw sydd yn tarddu o'r Lladin *historia*. Unwaith eto, mae ein dyled i Brynley Roberts yn enfawr. Ceir trafodaeth fanwl o'r term ganddo mewn erthygl ym 1974, a pherthnasol yw crybwyll y prif bwyntiau yma, gyda phob cydnabyddiaeth. Yn ei dyb ef, gall y gair olygu 'hanes' yn syml, ond 'fel arfer defnyddir ef, fel y gair Lladin, am groniciad o ddigwyddiadau sydd ynghlwm wrth genedl, person, neu wrthrych' (1974: 13). Traddodiadau hanesyddol yw ei ystyr yn *Y Trioedd Cerdd*, lle cyfeirir at y beirdd fel ceidwaid traddodiadau hanesyddol y genedl. Fodd bynnag, awgryma Roberts fod y gair 'ystoria' yn dwyn cysylltiadau â ffynonellau ysgrifenedig yn hytrach na llafar. Defnyddia Guto'r Glyn y gair mewn cyd-destun testunau hanes, ac y mae Lewys Glyn Cothi yn gwrthgyferbynnu darllen ac adrodd o'r cof:

A'm swydd gyda'm arglwydd mên
Oedd ddeall iddo awen;
Darllen art arall yn well,
Darllen ystoria wellwell.
Hanes, drwy'r siens a drig,
Achau'r ynys a'i chronig;
A'r hen gerdd ar hyn o gov;
A rhieingerdd o'r hengov.
(Roberts 1974: 14)

Trwy dynnu oddi ar dystiolaeth y beirdd, sylwa Roberts mai at destunau ysgrifenedig y cyfeiria'r term gan amlaf. Arwyddocaol yw hyn pan droir at y testunau rhyddiaith canoloesol. Gelwir y cyfieithiadau canoloesol yn 'ystoriaeu', 'am nad chwedlau llafar mohonynt eithr cyfieithiadau ysgrifenedig' (1974: 17), er

enghraifft *Ystoriaeu y Seint Greal* a *Ystoria Bown o Hamton*. Wrth droi at chwedlau'r *Mabinogion* gwelir bod y term yn digwydd ar ddiwedd *Breuddwyd Rhonabwy*:

A'r ystoria honn a elwir Breidwyt Ronabwy. (Rhon, t.21)

Cyfeirir yma at y ffaith mai testun ysgrifenedig ('llyuyr') yw'r freuddwyd. Mwy arwyddocaol, efallai, yw'r ffaith fod y term yn digwydd i ddisgrifio *Peredur* a *Gereint*. Yn nhestun Llyfr Coch Hergest rhoddir teitl i *Gereint* ar ddechrau'r chwedl:

Ilyma mal y treythir o ystoria gereint uab erbin. (RM, col. 244)

a theitl *Peredur* yn fersiwn Peniarth 14 yw *Ystoria Beredur*. Yn wir, yn fersiynau'r Llyfr Gwyn a'r Llyfr Coch cyfeirir ddwywaith at ffynonellau *Peredur* trwy ddefnyddio'r gair 'ystoria':

... megys y dyweit yr ystoria. (Per, t.56)

... ac ny dyweit yr istoria am Walchmei hwy no hynny, yn y gyfeir honno. (Per, t.61)

Awgryma Lloyd-Morgan (1981: 230) bod y ferf 'traethu' yn llinellau olaf y testun hefyd yn cyfeirio at ffynhonnell ysgrifenedig o bosibl:

Ac velly y treythir o Gaer yr Ynryfedodeu. (Per, t.70)

Fel y gwelwyd eisoes, pan gyfeiria awduron y *Pedeir Keinc* a *Cyfranc Lludd a Llefelys* at eu ffynonellau, defnyddiant y term cyfarwyddyd – 'a herwyd y dyweit y kyuarwydyt' (PKM, 92). Awgryma Brynley Roberts fod y cyfeiriadau at 'ystoria' yn y ddwy ramant yn datgelu rhywbeth ynglŷn â natur y ffynonellau:

Tybed ai'r rheswm dros arfer y teitlau *Ystoria Gereint*, *Ystoria Beredur*, yw fod yma gydnabod nad yw'r storïau hyn wedi'u breinio yn nhraddodiad y cyfarwyddiaid ... ond eu bod i ryw raddau yn pwysu ar ffynonellau Ffrangeg ysgrifenedig? (1974: 18–19)

Rhaid cofio, wrth gwrs, ei bod yn arferiad cyffredin mewn llenyddiaeth ganoloesol i gyfeirio at ryw *auctoritas*. Honnodd Sieffre o Fynwy, er enghraifft, mai cyfieithiad o ryw 'lyfr tra hen' yn yr iaith Frythonig oedd ei waith mawr ef (Lewis 1942: 1), a chyfeiria'r rhamantau Ffrangeg o'r ddeuddegfed a'r drydedd ganrif ar ddeg yn aml at eu ffynonellau fel *li contes* neu *li estoires*. *Topos* cyffredin ydoedd, yn profi bod seiliau cadarn i'r naratif. Yr oedd iddo hefyd swyddogaeth arall:

Such references have the advantage of forestalling criticism of the storyteller by his public: he is simply the mouthpiece of tradition, faithfully conveying his source material, and the faults, if any, are not his. Consequently the source is often invoked at those points in a narrative where there is felt to be some weakness, when the transition from one adventure to another may seem too abrupt, for instance, or when the events recounted might appear a little far-fetched. (Lloyd-Morgan 1981: 230)

Pwysig, felly, fydd ystyried hyn oll wrth fanylu ar dechnegau naratif y chwedlau Cymraeg brodorol.

1.4 Llafaredd/Llythrennedd – y Damcaniaethau

Gweithiau ysgrifenedig, felly, yw chwedlau'r *Mabinogion*, eithr maent i gyd yn tynnu oddi ar draddodiadau llafar i ryw raddau. Fel y nodwyd eisoes, anodd iawn yw gwybod faint o ddylanwad llafar a fu ar bob chwedl, faint o gyfuno, newid, cyfansoddi o'r newydd a ddigwyddodd yn hanes pob un. Yn wir, y mae'r berthynas rhwng llafaredd a llythrennedd yn destun ymchwil poblogaidd ers rhyw ddeng mlynedd ar hugain bellach. Gellid dadlau mai pum ysgolhaig a osododd y sylfeini ar gyfer maes ymchwil sydd bellach yn ffynnu ac yn elwa o fod yn rhyng-ddisgyblaethol.¹¹ Yn y 1920au dadleuodd Milman Parry fod y fformiwlâu a welir yng nghanu Homer wedi datblygu o ganlyniad i gyfansoddi llafar. Aeth yn ei flaen i gymharu ieithwedd Homer â chaneuon arwrol llafar dwyrain Ewrop gan gasglu mai prif nodwedd barddoniaeth lafar yw ei helpen fformiwlâig. Llwyddodd ei ddisgybl Albert Lord i ymestyn y maes yn ei glasur *The Singer of Tales* (1960), a datblygu'r syniad o 'themâu' mewn cyfansoddi llafar.¹² Llenyddiaeth glasurol a roes i Havelock yntau y damcaniaethau a gyhoeddodd yn ei *Preface to Plato* (1963), a dyna hefyd fan cychwyn Goody a Watt yn eu herthygl 'The Consequences of Literacy' (1968). Prif ddamcaniaeth y tri yw bod llythrennedd yn arwain at amryw o newidiadau cymdeithasol, llenyddol a gwybyddol – dyma'r hyn a elwir yn 'theori llythrennedd'. Yn y saithdegau a'r wythdegau fe'u gwelwyd yn datblygu eu syniadau, er enghraifft *The Domestication of the Savage Mind* (Goody 1977), *The Muse Learns to Write* (Havelock 1986), *The Logic of Writing and the Organisation of Society* (Goody 1986), a *The Interface between the Written and the Oral* (Goody 1987). Crynhoir y gwahanol agweddau ar y pwnc yn gryno gan Havelock:

There is the historical dimension: What has it meant for societies and their cultures in the past to discard oral means of

communication in favor of literate ones of various sorts? There is the contemporary one: What precisely is the relationship between the spoken word of today (or yesterday) and the written text? There is the linguistic one: What happens to the structure of a spoken language when it becomes a written artifact? Does anything happen? From this, one can proceed to the philosophical (or psychological) level and ask: Is oral communication the instrument of an oral state of mind, a type of consciousness quite different from the literate state of mind? (1986: 24)

Dadleuwyd ganddynt, felly, fod canlyniadau anochel yn digwydd yn sgil ysgrifennu.¹³ Mae ysgrifen yn rhoi sefydlogrwydd i fynegiant berfol – gellir trosglwyddo geiriau dros gyfnod o amser ac o un man i'r llall mewn ffurf sefydlog. Sylwer ar eiriau Gerallt Gymro:

Am eiriau a leferir, yn ddiau, gan eu bod ar unwaith yn ehedeg ymaith ac yn diflannu, nid yw'r coffa am na'u clod na'u cabl yn parhau'n hir. Ond y mae rhai ysgrifenedig, gan na dderfydd amdanynt unwaith y rhoir hwynt allan, ac y cyhoeddir hwynt, yn aros yn ogoniant neu'n warth parhaol i'w hawdur. (Thomas Jones 1938: 166)

Canlyniad arall yw bod gwaith ysgrifenedig yn arwain at berthynas wahanol rhwng yr awdur a'i gynulleidfa. Mewn llenyddiaeth lafar, mae llawer yn dibynnu ar y perfformiad personol, ar ymateb y gynulleidfa ac ar y berthynas uniongyrchol rhwng yr awdur a'i gyhoedd. Mae llenyddiaeth ysgrifenedig, ar y llaw arall, yn rhoi mwy o gyfle i'r awdur annibynnol, ac i gyfathrach haniaethol rhyngddo a'i gynulleidfa oherwydd mae'n rhydd o bwysau perfformio'r foment. Un canlyniad pellgyrhaeddol yw fod ysgrifennu yn hyrwyddo datblygiad sefydliadau a gwladwriaethau ar raddfa eang (Goody 1986). Er mwyn gweinyddu gwladwriaeth gymhleth, er enghraifft, mae'n rhaid wrth ysgrifen i gofnodi gweithgareddau megis talu trethi a gweithredu'r gyfraith. Canlyniad hyn oll, fel y gwyddom yn rhy dda bellach, yw creu biwrocratiaeth ar sawl lefel yn y gymdeithas. Dadleuwyd hefyd fod ymateb gwyddonol i hanes yn dibynnu ar dechneg ysgrifennu. Mae bodolaeth dogfennau ysgrifenedig yn gosod pellter rhwng y digwyddiadau eu hunain a'r disgrifiadau ohonynt. Wrth drosglwyddo disgrifiadau o'r gorffennol ar dafod leferydd, yna mae tuedd gref i ddehongli yn ôl safonau a disgwyliadau'r trosglwyddwr. Fodd bynnag, yn nhyb ysgolheigion fel Goody a Watt (1968), trwy gyfrwng dogfennau hanesyddol ysgrifenedig gellir edrych ar y gorffennol yn wrthrychol, yn hytrach na'i weld fel adlewyrchiad o'r presennol yn unig. Dadl arall yw bod

ysgrifennu'n hwyluso'r broses o gasglu gwybodaeth dros gyfnod o amser, sydd â goblygiadau pellgyrhaeddol i ddatblygiad unrhyw gymdeithas. Gellir felly drosglwyddo corff o wybodaeth o un genhedlaeth i'r llall, a hefyd ei drosglwyddo rhwng gwahanol ddiwylliannau. Yn nhyb Goody, dyna sut y lledaenwyd crefydd Islam, Hindu a Christnogaeth – maent oll yn 'religions of the book' (1968: 5).

Dyma, felly, rai o'r canlyniadau a welwyd yn sgil ysgrifennu. Byrdwn y damcaniaethau hyn yw bod datblygiad ysgrifennu (a chyfryngau cyfathrebu'n gyffredinol, gan gynnwys print a thelegyfathrebu) yn hollol ganolog i hanes, a'i fod wedi arwain at ddatblygiadau neu batrymau cymdeithasol *cyffredinol*, a'r rheini'n ganlyniadau buddiol ar y cyfan – trafodir y canlyniadau yn nhermau geiriau fel 'progress', 'development' neu 'modernization'. Buan y cydiodd ysgolheigion fel Walter Ong yn y syniadau hyn gan eu datblygu a'u hymestyn. Dadleuodd ef dros broses ddiachronig:

In terms of communication media, cultures can be divided conveniently and informatively into three successive stages: (1) oral or oral-aural, (2) script, which reaches critical breakthroughs with the invention first of the alphabet and then later of alphabetic movable type, and (3) electronic. (1967: 17)

Ym 1982 cyhoeddodd ei glasur *Orality and Literacy: The Technologizing of the Word*. Ceir yma gyflwyniad gwyh i faes astudiaethau llenyddiaeth lafar, crynodeb o ddamcaniaethau Ong ei hun, ynghyd ag arolwg beirniadol a chymharol o theorïau llafar. Dadansodda seicoddynameg llafaredd, trafoda'r goblygiadau seicolegol a llenyddol a ddaw yn sgil ysgrifennu a phrint, ac ystyria'r berthynas rhwng adeiladwaith naratif lafar a'r cof. Buan iawn y daeth y gyfrol yn destun safonol i unrhyw un yn gweithio yn y maes.

Cafwyd, fodd bynnag, feirniadaeth ar y damcaniaethau uchod ar sawl cyrif, ac yn arbennig felly gan anthropolegwyr a seicolegwyr gwybyddol. Yn ei chyfrol *Literacy and Orality: Studies in the Technology of Communication* (1988), sef casgliad o erthyglau a ysgrifennwyd rhwng 1973 a 1988, ceir arolwg clir o'r maes gan Finnegan, ynghyd â thrafodaeth dreiddgar. Gwelir Finnegan yn ochri gydag ail garfan o ysgolheigion megis Clanchy (1979), Scribner a Cole (1981), Street (1984), Bauman a Sherzer (1974). Iddynt hwy, mae'r darlun yn fwy cymhleth o lawer – ni ddylid cyffredinoli ac edrych am ryw batrymau hollgynhwysfawr eithr canolbwyntio ar:

the specific historical circumstances in which literacy and orality have variously been deployed, and the *different* ways the various media of communication are used in different cultures and different historical periods, depending as much on culture and historical specificity as on the technology as such. The uses, and thus effects, of literacy may be diverse rather than single. (Finnegan 1988: 7)

I'r ysgolheigion hyn, felly, mae'r 'Great Divide theory' (term a fathwyd gan Finnegan) yn honni gormod. Pwysleisiant fod llafaredd a llythrennedd wedi cyd-fyw a chydblethu ar hyd y canrifoedd, ac yn parhau i wneud hynny – fel y dywed Street, 'the social reality is always a mix' (1984: 61). Nid oes dim amheuaeth bod hyn yn wir am Gymru'r Oesoedd Canol.

1.5 Llafar, Llyfr a Llais yng Nghymru'r Oesoedd Canol

Fel y dywedwyd eisoes, diwylliant llafar, i raddau helaeth iawn, oedd diwylliant Cymru yn y Cyfnod Canol. Yn sicr, ychydig iawn o dystiolaeth uniongyrchol sydd i ddangos bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n eang fel cyfrwng ysgrifenedig cyn y drydedd ganrif ar ddeg (Huws 1993). O'r wythfed ganrif ymlaen ceir enghreifftiau o losau a *marginalia* Cymraeg mewn llawysgrifau Lladin, eithr ni cheir un llawysgrif gyflawn yn yr iaith frodorol (Haycock 1981: 96–8). Eto i gyd, adlewyrchir amrywiaeth o bynciau yn y darnau gwasgaredig hyn – pynciau diwinyddol, gwyddonol, llenyddol, hanesyddol, athronyddol, esthetig a gramadegol (D. Simon Evans 1982: 8). Gellir bod yn weddol ffyddiog, fodd bynnag, fod llyfrau yn bodoli yn y cyfnod hwn – ceir olion orgraff Hen Gymraeg a chamgymeriadau copïo mewn rhai o'n testunau cynnar, a hynny'n dyst i draddodiad ysgrifenedig sydd yn mynd yn ôl i'r ddeuddegfed ganrif os nad yn gynharach (Huws 1993: 2). Eithr, fel y dangosodd Huws yn ei erthygl gynhwysfawr, 'digwyddodd rhyw ffrwydrad cynhyrchu llyfrau Cymraeg a chofnodi llenyddiaeth' rhwng tua 1250 a 1400 – perthyn rhyw 'bedwar ugain o lyfrau, neu ddrylliau llyfrau' i'r cyfnod hwn (1993: 1). Cynhyrchwyd y llawysgrifau hyn, yn ôl pob tebyg, yn y mynachlogydd Sistersaidd, ac fe'u hysgrifennwyd ar gyfer 'lleygwyr o uchelwyr' – pobl fel Gruffudd ap Llywelyn ap Phylip, Rhydderch ab Ieuan Llwyd, Hopcyn ap Tomas a'i frawd Rhys ap Tomas, Llywelyn Bren (Huws 1993: 14). Gwyddom am uchelwyr yn noddi cyfieithiadau i'r Gymraeg yn y drydedd ganrif ar ddeg (Huws 1993: 14; J.E.C. Williams 1974: 331–6; Lloyd ac Owen 1986: 222–31), a merched hwythau – ceir cyfeiriad at Efa ferch Maredudd ab Owain yn noddi y Brawd

Gruffudd Bola a droes y *Quicumque Vult* neu *Credo Athanasius* ar ei chyfer. Mae'n debyg bod llawer o'r uchelwyr hyn yn berchen ar lawysgrifau, a rhai, diau, yn medru darllen. Eithr, hyd y gwyddom, diwylliant llafar oedd yr unig ddewis i'r mwyafrif o Gymry. Ychydig o ymchwil a wnaethpwyd hyd yma ar lythrennedd ymysg Cymry'r Oesoedd Canol, o gymharu â gwaith ysgolheigion fel Clanchy yn achos Lloegr (1979). Ond wedi dweud hynny, go brin y byddai carfan fawr o boblogaeth Cymru yn llythrennog yn y cyfnod hwn. Bid a fo am hynny, hyd yn oed yn achos y testunau ysgrifenedig yr oedd y llafar, neu o leiaf y llais a'r clyw, yn bwysig oherwydd darllen gweithiau allan yn uchel oedd yr arfer, hyd yn oed pan ddarllenai dyn iddo'i hun (Chaytor 1945: 13). Dyma, felly, gyfuno'r ddau begwn 'llafaredd' a 'llythrennedd' mewn modd unigryw.

Yr oedd darllen gwaith yn uchel i gynulleidfa yn hollol wahanol i berfformiad llafar pur, er mai perfformiad oedd y darlleniad hefyd yn y pen draw. Yn y ddau achos mae'r gynulleidfa yn ymateb fel grŵp, ond mae'n amlwg bod gan y storiwr llafar fwy o ryddid a mwy o gyfle i amrywio ei berfformiad – o safbwynt hyd, cynnwys, arddull – a hynny'n dibynnu i raddau helaeth ar ymateb ei gynulleidfa. Mae hyn oll yn arwain at yr hyn a elwir gan Bauman 'the emergent quality of performance' a ddisgrifir fel a ganlyn: 'The emergent quality of performance resides in the interplay between communicative resources, individual competence, and the goals of the participants, within the context of particular situations' (1977: 38).¹⁴ Diau bod hyn yn wir i ryw raddau wrth ddarllen yn uchel hefyd. Yr oedd y testun ysgrifenedig yn cyfyngu'r darlleniad cyhoeddus. Eto, yr oedd gan y darllenydd gryn ddylanwad ar y perfformiad – gallai ychwanegu neu ddehongli yn ôl ei fympwy, a diau nad goddefol mo'r gynulleidfa. Gellir cymharu'r broses o ddarllen *lygisögur* (rhamantau) yng Ngwlad yr Iâ yn y ganrif ddiwethaf: 'The reader is frequently interrupted, either by the head, or by some of the more intelligent members of the family, who make remarks on various parts of the story, and propose questions, with a view to exercise the ingenuity of the children and servants' (Henderson 1819: 283).¹⁵ Prin yw'r cyfeiriadau at lyfrau a darllen yn uchel yn chwedlau'r *Mabinogion*. Fel y crybwyllwyd eisoes, honna'r coloffon ar ddiwedd *Breuddwyd Rhonabwy* na wŷr neb y chwedl 'heb lyuyr'. Ceir cyfeiriad hefyd yn ail gainc y *Mabinogi* at Fendigeidfran yn derbyn llythyr Branwen:

Ac yna kymryt y llythyr a'y edrych. A phan darllewyd y llythyr, doluryaw a wnaeth o glybot y poen oed ar Uranwen . . . (PKM, t.38)

Nid 'darllenodd' yw'r ffurf a ddefnyddir uchod, ond 'darllenwyd' – yr awgrym, hyd y gwelaf, yw fod rhywun yn darllen y llythyr yn uchel i Fendigeidfran. Ceir llu o gyfeiriadau yng ngweithiau awduron fel Gerallt Gymro at yr arfer o ddarllen yn uchel:

Hefyd rhoes archddiacon y lle hwnnw ei waith ardderchog ei hun, *Hanes Lleoedd Iwerddon*, yn anrheg yno i'r Archesgob. Derbyniodd yntau'r gwaith yn ddiolchgar, a chan ei ddarllen, neu wrando ar ei ddarllen, yn graff bob dydd wedyn ar ei hynt, o'r diwedd wedi dychwelyd i Loegr gorffennodd ei ddarllen ynghyda gorffen ei genhadaeth. (Thomas Jones 1938: 18–19)

Ac wrth gyflwyno ei *Disgrifiad o Gymru* i Steffan, archesgob Caergaint, dywed: 'Yn ddiau, cyfrifwn ef yn dâl a gwobr am fy llafur, pe rhoit dy lygaid weithiau, pan fo taerineb dy weddiau, ambell waith, a gofalon dy swyddau ynghwsg, i ddarllen y rhain, neu o'r hyn lleiaf dy glustiau i wrando arnynt' (Thomas Jones 1938: 163–4). Cyfeiriwyd eisoes at Lewys Glyn Cothi yn darllen yn uchel i'w arglwydd,¹⁶ a disgrifir Ithel Ddu fel darllenydd dawnus mewn marwnad iddo gan Iolo Goch:

Peth yw'r byd? Pwy aeth a'r bêl?
Pen doeth, pwy onid Ithel?
Pwy oedd orau, doniau dyn,
Darlleawdr ar dir Llên?
(Johnston 1988: 99)

Ceir cyfeiriad diddorol gan Gynddelw Brydydd Mawr:

Gnawd o'm gwawd gorfod yn amryson
Mal pan orfydd Llew yn llyfr canon.
(Jones ac Owen 1991: 264)

Cynigir y diweddariad canlynol gan y golygyddion:

Arferol [yw imi] trwy fy marddoniaeth ennill [y dydd] mewn ymryson
Fel pan arfera Llew ennill [y dydd] mewn llyfr chwedl. (1991: 269)

Tueddwn i gytuno â Johnston yma – yn ei farn ef, nid yr enw priod Llew a geir yn yr ail linell, eithr ffurf ar y ferf 'darllen', ac nid 'llyfr chwedl' yw ystyr 'llyfr canon' eithr 'llyfr cyfraith'.¹⁷ Adlewyrchir felly bwysigrwydd y gair ysgrifenedig mewn llys barn. A diau mai darllen yn uchel fyddai'r arfer, er mwyn i bawb yn y llys gael clywed. Tystiolaetha'r llyfrau cyfraith hwythau i bwysigrwydd y gair ysgrifenedig:

Or dyweit neb ar y brawdwr varnv cam varnn arnaw, rodent eu deu wystyl ell deu yn llaw y brenhin, ac os y brawdwr a oruydir, a chyureith yscriuennedic yn dangos y oruot, talet y'r brenhin werth y tauot a'e swyd; ac odynd na varnnet vyth. Ny dylir credu barnn na'e chymryt rwg deu wystyl am vraut, onnyt vn a dangoser yg kyureith yscriuennedic. (Williams a Powell 1961: 15)¹⁸

Gellid ymhelaethu ar yr enghreifftiau. Yng ngoleuni hyn i gyd – y dystiolaeth Gymraeg a thystiolaeth gymharol – teg awgrymu y byddid yn darllen testunau'r *Mabinogion* yn uchel i gynulleidfaoedd a'u bod, efallai, wedi eu cyfansoddi'n arbennig at y pwrpas hwnnw.

Trafodwyd agweddau ar y ffenomen hon, sef clywededd (*aurality*), gan sawl ysgolhaig.¹⁹ Beirniadwyd rhai o'r damcaniaethau gan Coleman yn ddiweddar (1993; 1990). Iddi hi, nid rhyw hanner ffordd yw clywededd rhwng llafaredd a llythrennedd – nid ffenomen ydoedd a ddigwyddai oherwydd anllythrennedd y mwyafrif a diffyg llawysgrifau. Yn hytrach, dadleua fod cynulleidfaoedd yn Lloegr yn *dewis* ac yn *mwynhau* r profiad o wrando gyda'i gilydd:

Medieval readers chose to share their experience of literature because they valued shared experience. For them, a book read aloud came alive not only with the performer's voice but with the listeners' reactions and responses, with their concentration, their tears and applause, their philosophical or political debates, and their demands that the page be turned. (1993: 346)

Er prinned y dystiolaeth, o gymharu â Lloegr, mae'n siwr y byddai'r Cymry hwythau yn mwynhau gwranddo ar ddarlleniadau. Y cwestiwn yn y pen draw, fodd bynnag, yw pa effaith a gafodd y 'llafar' a'r 'llais' – hynny yw, y perfformio – ar y chwedlau ysgrifenedig? Mae i'r chwedlau Gymraeg wreiddiau dwfn yn nhraddodiad llafar y cyfarwydd; darllenwyd y testunau yn uchel i gynulleidfaoedd wedi iddynt gael eu cofnodi ar femrwn. Diau, felly, fod gofynion llafaredd a chlywededd wedi gadael eu hól i ryw raddau ar y chwedlau ysgrifenedig.

1.6 Casgliadau

Bwriad yr astudiaeth hon yw ceisio dadansoddi a deall crefft y chwedlau ysgrifenedig. Sut aeth yr awduron ati i lunio cyfanwaith o'r deunydd crai? Beth oedd natur y modelau llafar a oedd wrth law iddynt? Faint o ddylanwad a gafodd crefft y cyfarwydd ar

arddull y chwedlau? Dadansoddir y testunau yn fanwl gan ganolbwyntio ar dair agwedd yn arbennig – adeiladwaith, fformiwlâu ac ymddiddan. O wneud hyn, ceir cyfle i edrych ar y chwedlau ar ddwy lefel, sef y 'stori' a'r 'disgwrs'. Ar y naill law, manylir ar ddigwyddiadau'r naratif a'r modd y'u cysylltir ynghyd; ar y llaw arall, manylir ar rai o'r technegau a ddefnyddir gan yr awduron i adrodd y 'stori'. Defnyddir llenyddiaeth gymharol i daflu goleuni o bryd i'w gilydd, a manteisir hefyd ar dystiolaeth chwedlau llafar cyfoes o archif Amgueddfa Werin Cymru. Yn y ddau achos, cydnabyddir bod angen cymryd gofal ac na ddylid cymhwyso a chymharu'n ddall. Ond dadleuir na ddylid damcaniaethu na dyfalu ynglŷn â nodweddion 'llafar' llenyddiaeth ganoloesol heb yn gyntaf astudio testunau y gwyddys i sicrwydd eu bod yn llafar. Cydnabyddir bod bwlch rhwng yr ugeinfed ganrif a'r ddeuddegfed, rhwng llenyddiaeth gwledydd fel Affrica a Chymru, ond eto, gyda gofal, gall deunydd sydd yn bell yn amseryddol neu yn ddaearyddol ein hysgogi a chynnig inni fodelau hollol newydd. Wrth geisio dadansoddi chwedlau'r *Mabinogion* byddwn felly yn elwa ar sawl maes a disgyblaeth – nid cynnig astudiaeth lenyddol yn unig yw'r bwriad, eithr edrych ar y chwedlau yn eu cyd-destun cymdeithasol gyda'i holl gymhlethdodau.